OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2007 No. 3573

# Rheoliadau Fformiwla Fabanod a Fformiwla Ddilynol (Cymru) 2007

**Enwi, cychwyn a chymhwyso**

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Fformiwla Fabanod a Fformiwla Ddilynol (Cymru) 2007.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn dod i rym—

(a) yn achos rheoliad 31(2), ar 1 Ionawr 2010; a

(b) fel arall, ar 11 Ionawr 2008.

(3) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.